

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adolygiad o Wasanaethau Nyrsio Ardal **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Cyhoeddwyd: Rhagfyr 2014

Cyfeirnod y ddogfen: 614A2014

Statws yr adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Gabrielle Smith a Tracey Davies.

Cynnwys

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsio ardal. Mae'r cynllunio a'r cyflawni wedi'u cymhlethu gan ddealltwriaeth gyfyngedig o'r galw, amrywiad anesboniadwy yn y defnydd a diffyg monitro ansawdd a pherfformiad yn systematig.

Adroddiad cryno

Crynodeb	4
Ein prif ganfyddiadau	5
Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth glir eto na chynlluniau gweithredol ategol i gyflawni ei wasanaeth nyrsio ardal. Mae angen trosolwg cryfach ar lefel gorfforaethol er mwyn cyflawni amcanion y gwasanaeth	6
Mae dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw a chydymffurfio gwael ag arfarniad a hyfforddiant statudol a gorfodol yn ei gwneud yn anodd i'r Bwrdd Iechyd asesu a yw nifer y gweithlu a'u sgiliau yn ddigonol i fodloni'r angen am y gwasanaeth	7
Er bod gan staff nyrsio ardal fwy o rôl mewn cydlynu gwasanaethau i'r cleifion, mae'n aneglur a ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol oherwydd gwahaniaeth anesboniadwy yn y ffordd y maent yn treulio'u hamser a dosbarthiad anwastad adnoddau	8
Nid yw'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn gallu asesu, monitro ac adrodd ar berfformiad, ansawdd a diogelwch ei wasanaeth nyrsio ardal, yn systematig	9
Argymhellion	10
<hr/> <h2>Atodiadau</h2>	
Dull gweithredu'r Archwiliad	13
Cyflwyniad o'r canfyddiadau allweddol	16

Adroddiad cryno

Crynodeb

1. Mae nyrsys ardal yn un o brif ddarparwyr gofal yn y gymuned. Mae ganddynt rôl allweddol o fewn y tîm gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, yn ymweld ac yn darparu gofal i gleifion yn y gymuned a'u cartrefi eu hunain. Mae gan nyrsys ardal eu rhan hefyd yn gweithio gyda chleifion a'u perthnasau i'w helpu i reoli eu cyflwr a'u triniaeth, gan osgoi gorfod mynd i'r ysbyty neu'n ôl i'r ysbyty heb fod angen.
2. Gall llwyth achosion nyrs ardal gynnwys ystod oedran eang sydd â phob math o broblemau iechyd, yn cynnwys y rheiny sy'n derfynol wael. Y nifer fwyaf o'r cleifion yw'r oedrannus a'r eiddil. Yn y dyfodol rhagweladwy, mae'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn debygol o godi oherwydd y twf yn y boblogaeth hŷn, sydd yn aml ag anghenion gofal cymhleth, yn y gymuned yn hytrach na'r ysbyty. Ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd), disgwylir i nifer y bobl sy'n 65 oed a throsodd gynyddu 48 y cant erbyn 2036¹ a rhagwelir y bydd y rhai oedrannus iawn, y rheiny sy'n 85 oed a throsodd, yn cynyddu 148 y cant.
3. Mae model rheoli cyflyrau cronig Llywodraeth Cymru² a'i strategaeth gofal sylfaenol a chymunedol³, yn dangos yr angen i ail-gydbwysu gwasanaethau ar sail system gyfan a darparu mwy o ofal mewn lleoliadau cymunedol. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cael tîm amlddisgyblaethol yn canolbwyntio ar gydlynw gwasanaethau cymunedol ar draws ardaloedd daearyddol i unigolion sydd ag anghenion gofal iechyd a chymdeithasol cymhleth.
4. Dangosodd ein gwaith blaenorol ar gyflyrau cronig⁴:
 - mai ychydig o fyrddau iechyd sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o gapasiti neu allu eu gweithlu cymunedol, sy'n ei gwneud yn anodd targedu hyfforddiant a datblygiad er mwyn symud gofal tuag at y gymuned;
 - fod rhai byrddau iechyd wedi ailstrwythuro gwasanaethau nyrsio ardal er mwyn cael y capasiti angenrheidiol i 'symud' gofal i mewn i'r gymuned a chynnig gofal cydlynol; ac
 - y gallai gwasanaethau cymunedol i'r cleifion sydd fwyaf agored i niwed gael ei gydlynw'n well gan fod nifer o'r gwasanaethau hyn, yn cynnwys nyrsio ardal, yn cynnig yr un gofal neu ofal tebyg i'r garfan hon o gleifion.

¹ Llywodraeth Cymru, *Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru, ar sail Amrywoliion Amcanestyniadau 2011*(SDR 165/2013), 2013

² Llywodraeth Cymru, *Cynllun i Wella Iechyd a Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru: Model a Framwaith Integredig ar gyfer Gweithredu*, 2007

³ Llywodraeth Cymru, *Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned – Rhaglen Strategol ar gyfer Cyflenwi* 2010

⁴ Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru - Diweddariad*, Mawrth 2014

-
5. Os am gwrdd â'r heriau hyn, mae cyflwyno gofal yn y gymuned yn gofyn am weithlu medrus a gydlynwyd ac a ariannwyd yn briodol sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Gyda galw cynyddol ar wasanaethau a chyfyngiadau ariannol parhaus, mae angen i fyrddau iechyd ddeall sut y defnyddir y gwasanaeth nyrsio ardal ac ymhle mae'n eistedd yn y defnydd cyffredinol o wasanaethau cymunedol.
 6. Canfu'n hadroddiad yn 2012, *Trawsnewid gofal heb ei drefnu a rheoli cyflyrau cronig* fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol drwy sefydlu timau adnoddau cymunedol, timau cymunedol eraill a gwasanaethau i gefnogi pobl yn y gymuned ac atal defnyddio'r ysbyty heb fod angen. Roedd y Bwrdd Iechyd, fel rhan o ddull a gynlluniwyd, yn symud tuag at integreiddio gwasanaethau yn y tair sir ond roedd pob sir ar wahanol gam o'i datblygiad. Yr adeg honno, serch hynny, canfuom fod agwedd draddodiadol yn bodoli o hyd at wasanaethau nyrsio ardal, yn arbennig yng Ngheredigion.
 7. Nid oedd adolygiad nyrsio ardal 2014 yn cynnwys adolygiad o gynnydd yn erbyn y ddarpariaeth ehangach o wasanaeth cymunedol ond rydym yn ymwybodol fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i symud ymlaen â'i gynlluniau: er enghraifft, yn ddiweddar lansiodd y rhaglen foderneiddio i wasanaethau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngheredigion. Bydd Timau Adnoddau Cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau fod pobl leol yn cael asesiad amlbroffesiwn o'u hanghenion er mwyn eu cadw'n annibynnol, drwy ddefnyddio dull adsefydlu.
 8. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth nyrsio ardal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cynnwys 175 o staff nyrsio (cyfwerth ag amser cyflawn). O blith y rhain mae oddeutu tair rhan o bump yn gweithio mewn gwasanaethau cymunedol⁵. Caiff staff nyrsio ardal eu rhannu'n 32 o dimau ar draws 7 ardal gyda thimau unigol yn gofalu am 280 o gleifion ar gyfartaledd. Fel arfer mae'r timau'n gweithio rhwng 8am a 6pm gyda'r Timau Ymateb Aciwt ym mhob sir yn darparu gofal y tu allan i'r oriau hyn i'r cleifion sydd ar y llwyth achosion.
 9. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal adolygiad cenedlaethol o wasanaethau nyrsio ardal yn seiliedig ar y casgliad o wybodaeth fanwl gan y byrddau iechyd i gyd. Nod yr adolygiad, a gynhaliwyd rhwng Mawrth 2014 ac Awst 2014, oedd ateb y cwestiwn: 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio'i adnoddau nyrsio ardal yn effeithiol fel rhan o'i ddull ehangach o gyflwyno gofal yn y gymuned?' Mae **Atodiad 1** yn amlinellu dull gweithredu'r adolygiad.

Ein prif ganfyddiadau

10. Prif gasgliad yr adolygiad yw nad oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsio ardal. Mae'r cynllunio a'r cyflawni wedi'u cymhlethu gan ddealltwriaeth gyfyngedig o'r galw, amrywiad anesboniadwy yn y defnydd a diffyg monitro ansawdd a pherfformiad yn systematig. Yn arbennig:

⁵ Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys staff nyrsio sy'n gweithio mewn gofal sylfaenol, iechyd meddwl, anabledd dysgu a gwasanaethau plant. Mae'n cynnwys y gweithlu nyrsio yn y gymuned ehangach a ddefnyddir yn y timau ymateb aciwt, timau adnoddau cymunedol a thimau o ymarferwyr nyrsio cyflyrau cronig a nyrsys arbenigol ee, nyrsys Macmillan.

-
- nid oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth glir eto na chynlluniau gweithredol ategol i gyflawni ei wasanaeth nyrsio ardal. Mae angen trosolwg cryfach ar lefel gorfforaethol er mwyn cyflawni amcanion y gwasanaeth;
 - mae dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw a chydymffurfio gwael ag arfarniad a hyfforddiant statudol a gorfodol yn ei gwneud yn anodd i'r Bwrdd lechyd asesu a yw nifer y gweithlu a'u sgiliau yn ddigonol i fodloni'r angen am y gwasanaeth;
 - er bod gan staff nyrsio ardal fwy o rôl mewn cydlynu gwasanaethau i'r cleifion, mae'n aneglur a ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol oherwydd gwahaniaeth anesboniadwy yn y ffordd y maent yn treulio'u hamser a dosbarthiad anwastad adnoddau; ac
 - nid yw'r Bwrdd lechyd ar hyn o bryd yn gallu asesu, monitro ac adrodd ar berfformiad, ansawdd a diogelwch ei wasanaeth nyrsio ardal, yn systematig.
11. Mae'r tabl isod yn crynhoi'n prif ganfyddiadau. Mae'r dystiolaeth fanwl sy'n sail i'r canfyddiadau hyn wedi'i hamlinellu yn **Atodiad 2** ar ffurf cyflwyniad tebyg a roddwyd i gyfarwyddwyr gweithredol ac uwch reolwyr ar 29 Medi 2014. Bydd y setiau data sy'n sail i ganfyddiadau'r archwiliad yn cael eu rhannu â'r Bwrdd lechyd.

Rhan 1 - Nid oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth glir eto na chynlluniau gweithredol ategol i gyflawni ei wasanaeth nyrsio ardal. Mae angen trosolwg cryfach ar lefel gorfforaethol er mwyn cyflawni amcanion y gwasanaeth

Mae gan y Bwrdd lechyd weledigaeth glir o safbwynt symud gofal i'r gymuned ond nid yw wedi amlinellu eto sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni:

- Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio adnabod ffurf gwasanaethau cymunedol, sy'n cynnwys rôl nyrsio ardal yn y ddarpariaeth wasanaeth ehangach.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn gwybod ei fod yn wynebu nifer o heriau o safbwynt y boblogaeth sy'n heneiddio a'r galw tebygol ar wasanaethau yn y dyfodol tra'n ceisio ail-ffurfio gwasanaethau o fewn yr amlen ariannol bresennol.
- Mae yna fylchau yn yr wybodaeth sydd ei hangen i lywio datblygiad gwasanaethau cymunedol sy'n ateb y gofyn.

Yn niffyg strategaeth gwasanaeth cymunedol, nid oes cynllun gweithredol a manyleb gwasanaeth ar gyfer nyrsio ardal yn eu lle:

- Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi disgrifio'n glir beth yw rôl y gwasanaeth nyrsio ardal.

Mae'r strwythur sirol yn cynnig llinellau atebolrwydd rheolaethol a phroffesiynol clir ond mae angen trosolwg cryfach ar lefel gorfforaethol er mwyn cyflawni amcanion y gwasanaeth:

- Mae llinellau atebolrwydd rheolaethol yn eglur o fewn y siroedd.
- Tan yn ddiweddar, roedd pob sir yn gweithio ar ei phen ei hun, a oedd yn arwain at amrywiad yn y ffordd y cyflawnid gwasanaethau nyrsio ardal.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod fod pob sir yn gweithredu ar ei phen ei hun yn broffesiynol ac mae wrthi'n mynd i'r afael â hyn.

Rhan 2 - Mae dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw a chydymffurfio gwael ag arfarniad a hyfforddiant statudol a gorfodol yn ei gwneud yn anodd i'r Bwrdd Iechyd asesu a yw nifer y gweithlu a'u sgiliau yn ddigonol i fodloni'r angen am y gwasanaeth

Mae'r ddealltwriaeth o'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn gyfyngedig ond mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n mynd i'r afael â hyn:

- Ni cheir adolygiad systematig o lwyth achosion ar lefel bwrdd iechyd ac mae'r siroedd ar wahanol gamau o ddealltwriaeth o safbwynt niferoedd a chymysgedd achos cleifion.
- Fel y byrddau iechyd eraill yng Nghymru, nid oes offeryn dibyniaeth claf safonol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ac mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl i offeryn cenedlaethol gael ei ddatblygu.
- Ceir enghreifftiau o weithio ar y cyd â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol eraill i adnabod a llywio anghenion y cleifion mwyaf cymhleth ar y llwyth achosion.

Mae angen rheoli'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn well:

- Ni chafodd cydymffurfiaeth â'r meini prawf cyfeirio at wasanaethau nyrsio ardal eu hasesu, a allai gyfrif am yr anghysondebau yn eu defnydd.
- Nid yw cyfeiriadau amhriodol yn cael eu hail-gyfeirio bob amser, gyda nifer bychan o gyfeiriadau amhriodol yn arwain at ofal parhaus ar ôl yr ymweliad cyntaf.
- Mae'r staff nyrsio ardal yn ystyried fod yr wybodaeth gyfeirio yn ddigonol er gwaethaf bylchau mewn gwybodaeth sylfaenol gyda rhai timau yn fwy parod nag eraill i dderbyn hyn. Roedd hwn yn ganfyddiad cyffredin ledled Cymru.

Nid yw hi'n amlwg a oes gan y Bwrdd Iechyd y nifer cywir o staff nyrsio ardal i ddiwallu'r galw:

- Mae nifer y staff nyrsio ardal sydd ar gael ar gyfer y boblogaeth cleifion cofrestredig yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd i Gymru.
- Mae proses gynllunio gweithlu'r Bwrdd Iechyd yn cymryd fod y capasiti presennol yn iawn a bod ehangu'r gweithlu'n golygu ehangu'r sail sgiliau ac nid nifer y staff; fodd bynnag, ni chafodd nifer a chyfuniad sgiliau'r staff nyrsio ardal eu hadolygu ar lefel bwrdd iechyd i weld a yw'r rhain yn bodloni'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol.
- Bu cynnydd bychan yn y gweithlu nyrsio ardal ers 2009, sy'n adlewyrchu llwyddiant un sir i sicrhau cyllid i ddefnyddio staff i gefnogi cleifion oedd ag anghenion gofal cymhleth.
- Mae'r cymysgedd graddfeydd ar draws y gweithlu nyrsio ardal wedi newid dros y pum mlynedd diwethaf, er nad yw hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â chynllun gweithlu. Mae nifer y staff nyrsio ardal Band 7 wedi gostwng tra bod nifer y nyrsys staff cymunedol Band 5 wedi cynyddu.
- Er gwaethaf codiadau bychain yn nifer y gweithwyr cymorth gofal iechyd yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran y gweithwyr cymorth gofal iechyd gyda'r isaf yng Nghymru gydag amrywiadau nodedig o fewn a rhwng siroedd.
- Mae gwariant ar gyflog i staff parhaol nyrsio ardal yn dangos cynnydd bach dros y pum mlynedd diwethaf, tra bod costau cyflogau staff dros dro bron wedi dyblu i dalu am absenoldebau salwch.

Rhan 2 – Mae dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw a chydymffurfio gwael ag arfarniad a hyfforddiant statudol a gorfodol yn ei gwneud yn anodd i'r Bwrdd Iechyd Aseu a yw nifer y gweithlu a'u sgiliau yn ddigonol i fodloni'r angen am y gwasanaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicr yn buddsoddi mewn hyfforddiant ffurfiol i staff nyrsio ardal ond mae cydymffurfiaeth wael â'r broses arfarnu ac adolygu perfformiad yn tanseilio'i allu i adnabod bylchau mewn sgiliau. Yn y cyfamser, mae lefelau isel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn cyflwyno risgiau corfforaethol a gweithredol:

- Caiff anghenion hyfforddiant eu pennu'n lleol ac maent yn dibynnu'n rhannol ar y broses arfarnu ond nid yw'r staff i gyd wedi cael arfarniad ac adolygu'u cynllun datblygu personol o fewn y 12 mis diwethaf ac mae'r data arfarnu a gedwir yn ganolog yn anghyflawn.
- Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wan i rai agweddau o'r hyfforddiant ac mae'r data cydymffurfiaeth a gedwir yn ganolog yn anghyflawn.
- Er bod y Bwrdd Iechyd yn annog goruchwyliaeth glinigol i staff nyrsio, nid oes gan bob tîm nyrsio ardal system yn ei lle.
- Mae pwysau llwyth gwaith yn ei gwneud yn anodd i'r staff i gyd gael amser a ddiogelir taladwy ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
- Fel rheol, o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, mae'r staff nyrsio ardal yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cawsant eu hyfforddi ynddynt.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant nyrsys ardal a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y gyfran uwch o staff sydd â chymhwyster ymarferedd arbenigol.

Rhan 3 – Er bod gan staff nyrsio ardal fwy o rôl mewn cydlynu gwasanaethau i'r cleifion, mae'n aneglur a ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol oherwydd gwahaniaeth anesboniadwy yn y ffordd y maent yn treulio'u hamser a dosbarthiad anwastad adnoddau

Mae amrywiad anesboniadwy yn y ffordd y caiff timau nyrsys ardal eu defnyddio:

- Mae cyfran yr amser a dreulir ar ofal claf uniongyrchol yn cymharu'n llai ffafriol â nifer o rannau eraill o Gymru.
- Ceir gwahaniaethau mawr yng nghyfran yr amser a dreulir ar ofal claf uniongyrchol rhwng y timau oddi mewn i'r siroedd a rhyngddynt.
- Drwyddi draw, mae'r amser teithio yn cyfrif am gyfran fach o weithgaredd cysylltiedig â'r claf ond mae'r amser a dreulir ar gyfartaledd fesul cyswllt claf yn amrywio yn ddeublyg neu driphlyg rhwng timau.
- Mae cyfran yr amser y mae'r staff yn ei dreulio gyda'r cleifion ac mewn gweithgaredd heb fod yn gysylltiedig â'r cleifion yn amrywio ar draws ac o fewn graddfeydd, er nad ymddengys fod rheswm amlwg dros y gwahaniaeth hwn.
- Defnyddir cymysgedd drutach o raddfeydd ar y penwythnos.

Mae'r staff wedi'u dosbarthu'n anghyfartal ar draws y llwyth achosion ac ni all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr fod adnoddau nyrsio ardal yn cyd-fynd ag anghenion y llwyth achosion:

- Roedd y llwyth gwaith, o'i fesur fel nifer cleifion fesul nyrs ardal, yn amrywio deirgwaith drosodd rhwng timau nyrsio ardal ac nid yw hi'n glir a yw'r amrywiad yn adlewyrchu anghenion y claf neu ddyraniadau staffio hanesyddol.
- Gwnaeth y staff nyrsio ardal dros 7,600 o ymweliadau neu gysylltiadau â chleifion yn wythnos yr archwiliad ond roedd llawer o wahaniaethau annisgwyl rhwng y timau o safbwynt nifer y cleifion a welwyd a'r amser a gymerwyd i'w trin.
- Gweithiodd dros hanner y staff nyrsio ardal fwy na'u horiau contract.

Rhan 3 - Er bod gan staff nyrsio ardal fwy o rôl mewn cydlynu gwasanaethau i'r cleifion, mae'n aneglur a ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol oherwydd gwahaniaeth anesboniadwy yn y ffordd y maent yn treulio'u hamser a dosbarthiad anwastad adnoddau

Dywedodd deiliaid llwyth achosion wrthym eu bod yn rheoli eu llwyth achosion yn fwriadus ond dengys ein canfyddiadau y gallai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i wella rheoli llwyth achosion:

- Yn gyffredinol nid yw llwyth achosion byth yn cau ond maent yn ymestyn i gymryd cleifion newydd gyda'r posibilrwydd fod nifer yr ymweliadau y gall cleifion eu cael mewn un diwrnod yn ddiderfyn.
- Mae rhai timau'n darparu gofal i gleifion y tu allan i ffiniau'r Bwrdd Iechyd ac mae'r timau hyn yn wynebu nifer o heriau wrth gydlynu gofal i'r cleifion yma, fel gwybod y diweddaraf am ba wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael ynghyd â'r meini prawf cymhwyster.
- Mae rhai cleifion yn aros ar y llwyth achosion am amser hir ac mae rhai o'r cleifion hyn yn cael ymweliad blynyddol yn unig.
- Gofalir am y rhan fwyaf o'r cleifion yn eu cartrefi eu hunain ond nid yw'r cleifion i gyd yn 'gaeth i'r tŷ'.
- Mae dros hanner y cleifion ar y llwyth achosion yn derbyn un ymyriad gofal yn unig, fel arfer ar gyfer tynnu gwaed, er bod rhai gwahaniaethau rhwng y siroedd yn y mathau o ofal a roddir.

Mae gan staff nyrsio ardal fwy o ran mewn cydlynu'r gwasanaethau gofal iechyd lluosog y mae cleifion yn eu cael yn y gymuned o'i gymharu â rhai rhannau o Gymru:

- Mae nifer o gleifion yn derbyn gwasanaethau gofal iechyd lluosog yn y gymuned gyda thimau nyrsys ardal yn cydlynu neu'n rheoli achos mwyafrif y gofal hwn.
- Nid oes systemau ffurfiol yn eu lle i rannu gwybodaeth am gleifion rhwng y gwahanol dimau a'r darparwyr gwasanaeth ac mae'r staff yn dibynnu ar ddolenni cyfathrebu da ond anffurfiol.

Rhan 4 – Nid yw'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn gallu asesu, monitro ac adrodd ar berfformiad, ansawdd a diogelwch ei wasanaeth nyrsio ardal, yn systematig

Mae'r systemau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal yn annigonol:

- Mae'r systemau ar gyfer dal ac adrodd ar weithgaredd yn anghyson rhwng y siroedd ac ychydig o eglurder a geir am sut y defnyddir yr wybodaeth a ddaliwyd fel sail i gynllunio neu welliannau.
- Ni chytunwyd eto ar fesurau neu ddangosyddion perfformiad o safbwynt ansawdd a diogelwch y gwasanaeth nyrsio ardal er bod gwaith i gytuno ar fesurau perfformiad wedi dechrau; yn y dyfodol, bydd archwiliad 'Hanfodion Gofal' Cymru Gyfan, a fydd yn cyrraedd y gwasanaethau nyrsio ardal gyda hyn, yn rhoi rhywfaint o wybodaeth.
- Nid yw dulliau i ddal profiad y claf neu'r defnyddwyr wedi'u datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd a dibynnir ar fonitro cwynion a digwyddiadau.
- Nid oes tystiolaeth fod y Bwrdd neu ei bwyllgorau wedi trafod perfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Rhan 4 – Nid yw'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn gallu asesu, monitro ac adrodd ar berfformiad, ansawdd a diogelwch ei wasanaeth nyrsio ardal, yn systematig

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan weithredol mewn datblygu gwasanaethau nyrsio ardal ar draws Cymru ac mae'n gweithio i wella'r ffordd y mae gwybodaeth, yn cynnwys arfer da, yn cael ei rhannu oddi mewn i'r siroedd a rhyngddynt:

- Mae uwch staff nyrsio'n cyfrannu'n weithredol i'r fforymau Cymru gyfan ar y gwasanaeth nyrsio ardal ond nid oes mecanweithiau eglur ar gyfer lledaenu'r wybodaeth hon i dimau lleol.
- Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu mecanweithiau ar gyfer rhannu materion gweithredol a proffesiynol, yn cynnwys arfer da, oddi mewn i'r siroedd a rhyngddynt.

Argymhellion

Strategaeth a Chynllunio

A1 Mae angen diffinio rôl y gwasanaeth nyrsio ardal yn eglur. Gan dynnu ar ganfyddiadau'r archwiliad hwn, dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'r staff nyrsio ardal a rhanddeiliaid eraill i gytuno ar rôl a chyfrifoldebau'r gwasanaeth nyrsio ardal o fewn y ddarpariaeth ehangach o wasanaethau nyrsio cymunedol drwy:

- gytuno ar ymhle y darperir y gofal a diffinio 'yn gaeth i'r tŷ' fel bod cleifion yn cael eu trin yn y lleoliad gofal sydd fwyaf addas i'w hanghenion, a sicrhau effeithlonrwydd y gwasanaeth yr un pryd;
- cytuno ar ba ofal neu wasanaethau a fydd neu na fydd yn cael eu darparu, megis casglu presgripsiynau;
- codi ymwybyddiaeth gyda chyfeirwyr posibl am yr hyn y gall y gwasanaeth nyrsio ardal ei gynnig;
- tynnu sylw at bwrpas y gwasanaeth nyrsio ardal gyda darpar ddefnyddwyr; ac
- ystyried a oes cyfleoedd i integreiddio'r timau nyrsio cymunedol gwahanol yn un tîm.

Adnoddau i fodloni'r galw

A2 Mae llwyth achosion nyrsio ardal yn ymestyn i gynnwys cleifion newydd ac mae posibilrwydd i nifer yr ymweliadau fod yn ddiderfyn. Dylai'r Bwrdd Iechyd, yn gweithio gyda'r timau nyrsio ardal:

- gytuno ar drothwy pryd y gellir cau'r llwyth achosion i gyfeiriadau newydd;
- datblygu gweithdrefnau uwchgyfeirio pan fo'r trothwy yn debyg o gael ei groesi; ac
- ystyried a oes angen y gofal a roddir i'r cleifion a welir yn anfynych neu a ellir gollwng y cleifion hyn yn ddiogel o'r llwyth achosion neu a all eu gofal gael ei roi gan weithwyr proffesiynol eraill.

Adnoddau i fodloni'r galw

- A3 Nid yw pob un o'r cyfeiriadau i'r gwasanaeth nyrsio ardal yn briodol ac weithiau mae ansawdd yr wybodaeth gyfeirio yn wan. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r system beilot i frysennu (*triage*) cyfeiriadau yn Llanelli i ddiweddarau ei feini prawf cyfeirio;
 - cyfleu'r meini prawf cyfeirio a ddiweddarwyd wrth gyfeirwyr posibl;
 - datblygu rhestr wirio eglur o'r wybodaeth sydd ei hangen gan y rhai sy'n cyfeirio;
 - ystyried yn rheolaidd a ydynt yn cydymffurfio â'r meini prawf a'r rhestr wirio gwybodaeth ac yn targedu'r rheiny sy'n cyfeirio'n amhriodol neu'n rhoi gwybodaeth wael; ac
 - os yw'r system brysennu cyfeiriadau sy'n cael ei threialu yn Llanelli yn llwyddiannus, ystyried a ellir ei hatgynhyrchu mewn llefydd eraill.

Defnydd effeithiol

- A4 Roedd gwahaniaethau mawr yn y ffordd y mae staff nyrsio ardal yn treulio'u diwrnod gwaith. Er mwyn helpu i ddefnyddio'i adnodd nyrsio ardal yn effeithiol, mae angen i'r Bwrdd lechyd:
- fonitro'r cymysgedd graddfeydd drwy gymharu'r gwaith a wneir â'r gweithgareddau a ddisgwyllir gan raddfa'r nyrs honno;
 - archwilio'r amrywiadau mewn gweithgareddau heb fod gyda'r claf ac ystyried a oes cyfleoedd i ryddhau amser ar gyfer gofal uniongyrchol i'r claf;
 - cytuno ar drothwy priodol i fonitro'r amser a dreulir ar ofal uniongyrchol i'r claf yn ei erbyn;
 - adolygu'r cymysgedd staff a ddefnyddir yn erbyn anghenion cleifion ar wahanol adegau o'r wythnos;
 - archwilio gwir hyd a lled gweithio y tu hwnt i oriau arferol; ac
 - archwilio'r gwasanaethau rhwng y siroedd o ran y mathau o ymyriadau gofal, fel tynnu gwaed, i benderfynu a ellid defnyddio'r adnoddau presennol yn wahanol.

- A5 Roedd gwahaniaethau mawr yn y ffordd yr oedd arweinwyr tîm yn treulio'u hamser. Dylai'r Bwrdd lechyd gytuno ar fecanweithiau i ganiatáu amser a ddiogelir i arweinwyr tîm i ffordd o'u dyletswyddau gweithredol fel eu bod yn gallu rheoli llwyth achosion, goruchwylio a chefnogi staff, ac arwain eu timau.

Cydweddu adnoddau â'r llwyth achosion

- A6 Mae'r llwyth gwaith yn amrywio rhwng timau. Dylai'r Bwrdd lechyd ddefnyddio offeryn dibyniaeth Cymru gyfan pan fydd ar gael i fonitro ac adolygu'r cymysgedd achosion rhwng y timau o'i gymharu ag adnoddau'r tîm.
-

Monitro a gwella gwasanaethau

- A7 Ar hyn o bryd cyfyng yw'r wybodaeth am ansawdd a diogelwch a pherfformiad cyffredinol y gwasanaeth nyrsio ardal. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- symud ymlaen yn gyflym gyda'i waith o gytuno ar fesurau perfformiad, yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau, megis cydymffurfio ag arfarniadau a hyfforddiant statudol a gorfodol, profiad y defnyddiwr gwasanaeth, deilliannau'r claf, costau'r gwasanaeth a chyfraniad nyrsio ardal at symud gofal o leoliadau aciwt i rai cymunedol; a
 - datblygu dull cynhwysfawr o adrodd am y mesurau hyn i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.
- A8 Mae cydymffurfiaeth â'r broses arfarnu ac adolygu'r cynllun datblygu personol yn wan ynghyd â chydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol ac mae systemau corfforaethol i fonitro cydymffurfiaeth yn annigonol. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- weithio gyda rheolwyr lleol i adnabod a chofnodi'n gyson yr hyfforddiant statudol a gorfodol sydd ar bob aelod o staff eu hangen a pha mor aml y mae angen hyn fel y gellir cyfrifo cyfraddau cydymffurfiaeth yn gywir; a
 - chytuno ar fformat cyson i gasglu data yn lleol ar gydymffurfiaeth a'r mecanwaith i fwydo hwn i mewn yn ganolog.

Atodiad 1

Dull gweithredu'r Archwiliad

Gofynnodd yr archwiliad y cwestiwn: 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio'i adnoddau nyrsio ardal yn effeithiol fel rhan o'i ddull ehangach o gyflwyno gofal yn y gymuned?'. Yn arbennig, roeddem yn ystyried:

- a oes strategaeth glir ar gyfer cyflawni'r gwasanaeth nyrsio ardal;
- a oes adnoddau nyrsio ardal digonol i fodloni'r galw;
- a yw adnoddau nyrsio ardal yn cael eu defnyddio'n effeithiol; ac
- a oes trefniadau effeithiol i fonitro ansawdd a pherfformiad y gwasanaethau nyrsio ardal.

Gwnaethom nifer o weithgareddau archwilio rhwng Mawrth ac Awst 2014 i ateb y cwestiynau hyn. Cafodd pob gweithgaredd archwiliad, a ddisgrifir yn y tabl isod, eu cynnal mewn wythnosau olynol er mwyn lleihau effaith y naill weithgaredd ar y llall.

Gweithgareddau Archwilio	Diben
1. Arolwg tîm	<p>Fe ofynnwn ni i arweinwyr timau unigol lenwi arolwg holiadur byr am eu timau nhw. Roedd yr arolwg yn gofyn am wybodaeth am niferoedd y gweithlu, y mathau o weithgareddau gofal yr oedd y staff wedi'u hyfforddi i'w cyflawni ac a oedd y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio, niferoedd y staff oedd â chymwysterau ymarferwr arbenigol, cymryd rhan mewn goruchwyliaeth glinigol, ac amser a ddiogelir ar gyfer hyfforddiant.</p> <p>Fe dderbynion ni 36 o arolygon wedi'u cwblhau, 32 gan y timau nyrsio ardal, tri gan y Timau Ymateb Aciwt (ART) ac un gan Dîm Gofal Parhaus Sir Gaerfyrddin.</p>
2. Dyddiadur llwyth gwaith unigol	<p>Fe ofynnwn ni i'r staff nyrsio i gyd, oedd yn gweithio fel rhan o dîm nyrsio ardal neu Dîm Ymateb Aciwt adeg yr archwiliad, i gadw dyddiadur gweithgareddau saith diwrnod rhwng 31 Mawrth a 6 Ebrill 2014. Roedd y dyddiadur yn dangos faint o amser roedd staff nyrsio unigol yn ei dreulio ar wahanol fathau o weithgaredd a lleoliad y cysylltiadau â'r cleifion.</p> <p>Fe dderbynion ni 289 o ddyddiaduron wedi'u cwblhau am yr wythnos dan sylw gan staff a oedd yn gweithio fel aelodau staff i'r gwasanaeth nyrsio ardal, y Timau Ymateb Aciwt a Thîm Gofal Parhaus Sir Gaerfyrddin. Roedd y staff hyn yn cynnwys staff banc, myfyrwyr cyn cofrestru trydedd flwyddyn a myfyrwyr ôl-gofrestru. Rhoddodd yr arolwg dyddiadur ddarlun o 91 y cant o'r staff a oedd fod i weithio yn ystod yr wythnos dan sylw.</p>

Gweithgareddau Archwilio	Diben
<p>3. Arolwg rhagolygol o gyfeiriadau i'r gwasanaeth</p>	<p>Fe ofynnwn ni i'r timau nyrsio ardal a'r Timau Ymateb Acíwt lenwi arolwg holiadur byr am bob cyfeiriad a dderbyniodd y tîm rhwng 7 Ebrill a 13 Ebrill 2014. Roedd yr arolwg yn gofyn am wybodaeth am nifer a natur y cyfeiriadau a wnaed i'r gwasanaethau nyrsio ardal, yn cynnwys ansawdd yr wybodaeth gyfeirio a pha mor briodol y credent oedd y cyfeiriadau a dderbyniodd y timau nyrsio ardal. Llenwodd pob tîm arolwg holiadur am bob cyfeiriad newydd a dderbyniwyd a arweiniodd at ymweliad wyneb yn wyneb neu alwad ffôn.</p> <p>Fe dderbynion ni 1,429 o arolygon wedi'u cwblhau (yn cynnwys 100 i'r ARTs).</p>
<p>4. Arolwg llwyth gwaith</p>	<p>Dewisodd y Bwrdd Iechyd ddau dîm nyrsio ardal o bob un o'r saith ardal ddaearyddol i gymryd rhan yn yr arolwg llwyth gwaith. Cymerodd y tri Thîm Ymateb Acíwt ran yn hwn hefyd. Llenwodd arweinwyr tîm arolwg holiadur am bob claf 'gweithredol', hynny yw, unrhyw glaf yr oedd y tîm nyrsio ardal wedi ymweld â nhw, neu wedi bod mewn cysylltiad â nhw, yn ystod y chwe mis blaenorol ac ymweliad arall wedi'i gynllunio ar eu cyfer. Gallai arweinwyr tîm gynnal yr arolwg unrhyw bryd rhwng 14 Ebrill ac 11 Mai 2014. Gofynnwn am wybodaeth am gyfansoddiad y llwyth gwaith, gyda'r ffactorau canlynol yn arbennig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • oed a rhyw; • a ystyrir fod y claf yn gaeth i'r tŷ • mathau o ymyriadau gofal; • amllder ymweliadau; • hyd yr amser ar y llwyth gwaith; • a oes angen gofal nyrsio y tu allan i oriau arferol; ac • a yw'r claf yn derbyn gofal neu gymorth gan wasanaethau gofal iechyd cymunedol eraill, nyrsys arbenigol, gwasanaethau cymdeithasol a gofalwyr di-dâl. <p>Fe dderbynion ni 3,370 o arolygon wedi'u cwblhau (yn cynnwys 118 o ymatebion Timau Ymateb Acíwt), a oedd yn cynrychioli 36 y cant o gyfanswm y llwyth gwaith yr adeg honno.</p>
<p>5. Arolwg bwrdd iechyd</p>	<p>Fe ofynnwn ni i'r Bwrdd Iechyd lenwi arolwg holiadur byr, a oedd yn gofyn am wybodaeth am y model o ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau nyrsio ardal, y tueddiadau yn niferoedd y gweithlu a'r gwariant ar y gwasanaeth, gwybodaeth am gydymffurfio â'r broses arfarnu ac adolygu perfformiad a hyfforddiant statudol a gorfodol a threfniadau ar gyfer rheoli perfformiad, yn cynnwys agweddau ansawdd a diogelwch. Cwblhaodd y Bwrdd Iechyd un arolwg ar gyfer pob sir.</p>
<p>6. Gweithdai gydag arweinwyr tîm a rheolwyr</p>	<p>Fe rannon ni'r canfyddiadau o'r ymarferion casglu data gydag arweinwyr tîm a rheolwyr o'r tair sir mewn dau weithdy adrodd yn ôl a gynhaliwyd yn Awst a Medi. Roedd y gweithdai hyn yn gyfle i arweinwyr tîm roi sylwadau ar ddilysrwydd y canfyddiadau.</p>

Gweithgareddau Archwilio**Diben**

7. Gweithdy gyda'r uwch dîm rheoli nyrsys a'r cyfarwyddwyr gweithredol

Cyfarfuom ag uwch reolwyr a chyfarwyddwyr gweithredol ddiwedd mis Medi i rannu'n casgliadau cychwynnol a oedd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad.

Atodiad 2

Cyflwyno'r canfyddiadau allweddol


Mae'r data a gyflwynir yn yr atodiad hwn ar gyfer y gwasanaeth nyrsgo ardal. Rhannwyd canfyddiadau'r arolwg i'r Timau Ymateb Acíwt (ART) a Thîm Gofal Iechyd Parhaus Sir Gaerfyrddin gyda'r Bwrdd Iechyd fel rhan o'n hadborth cychwynnol yn ystod Awst a Medi 2014.



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adolygiad Nyrsgo Ardal

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



- Mae nyrssys ardal yn un o brif ddarparwyr gofal yn y gymuned.
- Mae'r galw am wasanaethau nyrssio ardal yn debygol o godi:
 - mae dwy ran o dair o boblogaeth Cymru sy'n 65 oed neu'n hŷn yn adrodd fod ganddynt o leiaf un cyflwr cronig; ac mae gan draean gyflyfrau cronig lluosog; ac
 - mae pobl yn byw yn hirach a disgwylir i nifer y bobl sy'n 65 oed a throsodd yn Hywel Dda gynyddu 48 y cant erbyn 2036 a rhagwelir y bydd y rhai oedranus iawn, y rheiny sy'n 85 oed a throsodd, yn cynyddu 148 y cant.
- Dangosodd gwaith blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflyrau cronig:
 - mai ychydig o fyrddau iechyd sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o gapasiti neu allu eu gweithlu cymunedol, sy'n ei gwneud yn anodd symud gofal tuag at y gymuned;
 - fod rhai byrddau iechyd wedi ailstrwythuro gwasanaethau nyrssio ardal er mwyn cael y capasiti angenrheidiol i symud gofal i mewn i'r gymuned a chynnig gofal cydlynol ac;
 - y gallai gwasanaethau cymunedol gael eu cydlynu'n well gan y gallai nifer o wasanaethau yn cynnwys nyrssio ardal, gynnig yr un gofal neu ofal tebyg i'r garfan hon o gleifion.
 - Mae cyflwyno gofal yn nes at adref yn gofyn am weithlu medrus a gydlynwyd ac a ariannwyd yn briodol sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol.
- Gyda galw cynyddol ar wasanaethau a chyfyngiadau ariannol parhaus, mae angen i fyrddau iechyd ddeall sut y defnyddir y gwasanaeth nyrssio ardal ac ymhle mae'n eistedd yn y defnydd cyffredinol o wasanaethau cymunedol.

Adolygiad Nyrssio Ardal

Sleid 2

A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio'i adnoddau nyrssio ardal yn effeithiol fel rhan o'i ddull ehangach o gyflwyno gofal yn y gymuned?

- A oes strategaeth glir ar gyfer cyflawni'r gwasanaeth nyrssio ardal?
- A oes adnoddau nyrssio ardal digonol i fodloni'r galw?
- A yw adnoddau nyrssio ardal yn cael eu defnyddio'n effeithiol; ac
- A oes trefniadau effeithiol i fonitro ansawdd a pherfformiad y gwasanaethau nyrssio ardal?

Adolygiad Nyrssio Ardal

Sleid 3

Nid oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsio ardal. Mae'r cynlluno a'r cyflawni wedi'u cymhlethu gan ddealltwriaeth gyfyngedig o'r galw, amrywiad anesboniadwy yn y defnydd a diffyg monitro ansawdd a pherfformiad yn systematig.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 4

- 1. Strategaeth a chynllunio:** Nid oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth glir eto na chynlluniau gweithredol ategol i gyflawni ei wasanaeth nyrsio ardal. Mae angen trosolwg cryfach ar lefel gorfforaethol er mwyn cyflawni amcanion y gwasanaeth.
- 2. Adnoddau i fodloni'r galw:** Mae dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw a chydymffurfio gwael ag arfarniad a hyfforddiant statudol a gorfodol yn ei gwneud yn anodd i'r Bwrdd lechyd asesu a yw nifer y gweithlu a'u sgiliau yn ddigonol i fodloni'r angen am y gwasanaeth.
- 3. Defnydd effeithiol:** Er bod gan staff nyrsio ardal fwy o rôl mewn cydlynu gwasanaethau i'r cleifion, mae'n aneglur a ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol oherwydd gwahaniaeth anesboniadwy yn y ffordd y maent yn treulio'u hamser a dosbarthiad anwastad adnoddau.
- 4. Trefniadau i fonitro a gwella gwasanaethau:** Nid yw'r Bwrdd lechyd ar hyn o bryd yn gallu asesu, monitro ac adrodd ar berfformiad, ansawdd a diogelwch ei wasanaeth nyrsio ardal, yn systematig.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 5

Nid oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth glir eto na chynlluniau gweithredol ategol i gyflawni ei wasanaeth nyrsio ardal. Mae angen trosolwg cryfach ar lefel gorfforaethol er mwyn cyflawni amcanion y gwasanaeth.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 6

a. Mae gan y Bwrdd lechyd weledigaeth glir o safbwynt symud gofal i'r gymuned ond nid yw wedi amlinellu eto sut y cyflawnir hyn:

- Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio adnabod ffurf gwasanaethau cymunedol, sy'n cynnwys rôl nyrsio ardal yn y ddarpariaeth wasanaeth ehangach:
 - mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol i symud ymlaen ar y gwaith hwn, gwaith y bydd datblygu mesurau perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymunedol, yn cynnwys nyrsio ardal, yn sail iddo.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn gwybod ei fod yn wynebu nifer o heriau o safbwynt y boblogaeth sy'n heneiddio a'r galw tebygol am wasanaethau yn y dyfodol tra'n ceisio ail-ffurfio gwasanaethau o fewn yr amlen ariannol bresennol.
- Mae yna fylchau yn yr wybodaeth sydd ei hangen i lywio datblygiad gwasanaethau cymunedol sy'n ateb y gofyn.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 7

b. Yn niffyg strategaeth gwasanaeth cymunedol, nid oes cynllun gweithredol a manyleb gwasanaeth ar gyfer nyrsio ardal yn eu lle:

- Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi disgrifio'n glir beth yw rôl y gwasanaeth nyrsio ardal:
 - mae manyleb i'r gwasanaeth nyrsio ardal ar draws y bwrdd iechyd yn cael ei datblygu; ac
 - mae'r meini prawf ar gyfer cyfeirio i'r gwasanaethau nyrsio ardal yn hen ac nid ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.
- Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi amlinellu'r gofynion o ran gweithlu i'r gwasanaeth nyrsio ardal ond mae ei broses cynllunio gweithlu cyffredinol yn tybio fod y capasiti presennol yn iawn.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 8

c. Mae'r strwythur sirol yn cynnig llinellau atebolrwydd rheolaethol a phroffesiynol clir ond mae angen trosolwg cryfach ar lefel gorfforaethol er mwyn cyflawni amcanion y gwasanaeth:

- Mae llinellau atebolrwydd rheolaethol yn eglur o fewn siroedd.
- Tan yn ddiweddar, roedd pob sir yn gweithio ar ei phen ei hun, a oedd yn arwain at amrywiad yn y ffordd y cyflawnid gwasanaethau nyrsio ardal:
 - Mae gwaith ar y gweill i sicrhau gwell cydlyniant mewn gwasanaethau cymunedol ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod fod pob sir yn gweithredu ar ei phen ei hun yn broffesiynol ac mae wrthi'n mynd i'r afael â hyn.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 9

Mae dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw a chydymffurfio gwael ag arfarniad a hyfforddiant statudol a gorfodol yn ei gwneud yn anodd i'r Bwrdd Iechyd asesu a yw nifer y gweithlu a'u sgiliau yn ddigonol i fodloni'r angen am y gwasanaeth.

- a. Mae'r ddealltwriaeth o'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn gyfyngedig ond mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n mynd i'r afael â hyn:**
- Ni cheir adolygiad systematig o lwyth achosion ar lefel bwrdd iechyd ac mae'r siroedd ar wahanol gamau o ddealltwriaeth o safbwynt niferoedd a chymysgedd achos cleifion.
 - Fel y byrddau iechyd eraill yng Nghymru, nid oes offeryn dibyniaeth claf safonol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ac mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl i offeryn cenedlaethol gael ei ddatblygu.
 - bu'r offeryn cenedlaethol yn hir yn cael ei ddatblygu ac er bod y Bwrdd Iechyd wedi ceisio dylanwadu ar y cynnwys a'r cyflymder, mae datblygiad yr offeryn y tu allan i'w reolaeth.
 - Ceir enghreifftiau o weithio ar y cyd â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol eraill i adnabod a llywio anghenion y cleifion mwyaf cymhleth ar y llwyth achosion:
 - Mae'r timau'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol rheolaidd o fewn gofal sylfaenol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 11

Canfyddiadau o arolwg llwyth achosion nyrsys ardal:

- Ar adeg yr archwiliad, roedd 3,252 o gleifion 'gweithredol' ar yr 14 llwyth achosion a ddewiswyd i'w hadolygu (cleifion gweithredol oedd y cleifion hynny a gafodd ymweliad gan y tîm nyrsio ardal yn y chwe mis cyn yr adolygiad ac roedd ymweliad arall wedi'i gynllunio ar eu cyfer):
 - roedd 86 y cant o'r cleifion yn 65 oed neu'n hŷn – 38 y cant yn 85 oed neu'n hŷn;
 - roedd gan saith y cant o'r cleifion anghenion nyrsio y tu allan i oriau craidd ac roedd yr anghenion yma yn cael eu diwallu gan y Tîm Ymateb Aciwt;
 - roedd 35 y cant o'r cleifion yn byw ar eu pennau eu hunain;
 - roedd 55 y cant o'r cleifion yn cael cymorth gan ofalwr di-dâl;
 - roedd 75 y cant o'r cleifion yn cael eu hystyried yn 'gaeth i'r tŷ' (sef y cleifion hynny y byddai eu cyflwr meddygol a/neu seicolegol yn dirywio'n ddrwg pe baent yn gadael eu hamgylchedd cartref eu hunain);
 - cafodd 96 y cant o gleifion ymweliad gan un person yn eu cartref eu hunain;
 - roedd saith y cant o'r cleifion wedi bod ar y llwyth achosion am lai na phythefnos o'i gymharu â 27 y cant a oedd wedi bod ar y llwyth achosion am dros flwyddyn; a
 - cafodd chwech y cant o'r cleifion ymweliad dyddiol neu amlach gyda 33 y cant yn cael ymweliad un neu fwy o weithiau'r wythnos, 41 y cant yn cael ymweliad rhwng un a chwe mis a chwech y cant yn cael ymweliad unwaith y flwyddyn.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 12

b. Mae angen rheoli'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn well:

- Ni chafodd cydymffurfiaeth â'r meini prawf cyfeirio at wasanaethau nyrsio ardal eu hasesu, a allai gyfrif am yr anghysondebau yn eu defnydd:
 - Derbyniwyd cyfeiriadau am asesiadau cadair olwyn a phodiatreg ac adroddodd staff nyrsio eu bod yn casglu presgripsiynau cleifion.
- Nid yw cyfeiriadau amhriodol yn cael eu hail-gyfeirio bob amser, gyda nifer bychan o gyfeiriadau amhriodol yn arwain at ofal parhaus ar ôl yr ymweliad cyntaf:
 - dywedodd staff wrthym eu bod yn parhau i ymweld â chleifion oherwydd nad oes gwasanaethau eraill y gallant ailgyfeirio'r cleifion hyn atynt; ac
 - mae timau Llanelli yn treialu system i frysbennu pob cyfeiriad a dderbynnir er mwyn lleihau nifer y cyfeiriadau amhriodol, gwella ansawdd yr wybodaeth gyfeirio a chyfeirio'r rhai sy'n cyfeirio cleifion at y gwasanaethau priodol.
- Roedd y staff nyrsio ardal yn ystyried fod yr wybodaeth gyfeirio yn ddigonol er gwaethaf bylchau mewn gwybodaeth sylfaenol gyda rhai timau yn fwy parod nag eraill i dderbyn hyn. Roedd hwn yn ganfyddiad cyffredin ledled Cymru.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 13

Canfyddiadau o'r arolwg cyfeiriadau (i):

Ar adeg ein harchwiliad, derbyniwyd 1,329 o gyfeiriadau; cyfartaledd o 41 o gyfeiriadau y tîm yn ystod yr wythnos dan sylw (yn amrywio o bump i 96 y tîm):

- Mae'r galw am wasanaethau nyrsio ardal, o'i fesur yn ôl nifer y cyfeiriadau, yn digwydd yn ystod yr wythnos yn bennaf:
 - derbyniwyd bron y cyfan o'r cyfeiriadau yn ystod yr wythnos gyda nemor ddim (dau y cant) ar y penwythnos
- Mae llawer o'r galw am ofal nyrsio cymunedol yn cael ei yrru gan gyfeiriadau o Feddygfeydd Teulu ond derbynnir cyfrannau tebyg o gyfeiriadau gan gleifion neu eu gofalwyr:
 - Ystyrir mai ymlyniad at feddygfa a chyd-leoliad yw'r rheswm dros gyfran uwch y cyfeiriadau gofal sylfaenol yng Ngheredigion.
 - Mae'n bosibl fod cyfeiriadau gan gleifion a gofalwyr yn adlewyrchu profiad personol o'r gwasanaeth nyrsio ardal. Dywedodd staff wrthym fod cleifion yn aml yn cael eu cynghori gan y tîm gofal sylfaenol i gysylltu â'r 'nyrs ardal'.
- Mae dwy ran o dair (65 y cant) o'r cyfeiriadau i gleifion sydd eisoes yn wybyddus i'r staff nyrsio ardal.
- Roedd dros hanner yr holl gyfeiriadau yn geisiadau am dynnu gwaed gyda chyfran uwch o'r cyfeiriadau hyn ar gyfer cleifion a oedd eisoes yn wybyddus i'r gwasanaeth.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 14

Canfyddiadau o'r arolwg cyfeiriadau (ii):

- Roedd mwyafrif helaeth y cyfeiriadau'n cael eu hystyried yn rhai priodol ond roedd rhai gwahaniaethau rhwng y timau:
 - ystyrid fod 94 o'r cyfeiriadau yn briodol ond roedd hyn yn amrywio rhwng y timau o 75 y cant i 100 y cant;
 - yn achos nifer bychan o gyfeiriadau amhriodol, parhaodd y gofal ar ôl yr ymweliad cyntaf (18 o'r 71 o'r cyfeiriadau amhriodol).
- Cafodd tair rhan o bump (61 y cant) o'r cleifion ofal parhaus ar ôl yr ymweliad cyntaf:
 - Arweiniodd cyfran fechan (15 y cant) o'r cyfeiriadau at ymweliad untro; yn chwarter (23 y cant) o'r achosion, ni wnaed penderfyniad ynghylch a oedd angen i'r gofal barhau.
- Ystyrir fod dros ddwy ran o dair (70 y cant) yn rhoi gwybodaeth ddigonol ond bod rhywfaint o wybodaeth sylfaenol ar goll. Gall ansawdd yr wybodaeth fod wedi'i lesteirio oherwydd mai dim ond cyfran fach (12 y cant) o'r cyfeiriadau sydd mewn fformat ysgrifendig neu'n cael eu rheoli drwy bwynt mynediad canolog.
- Caiff y cleifion eu gweld yn brydlon gyda thair rhan o bump (60 y cant) yn cael eu 'gweld' yr un dydd ag y derbyniwyd y cyfeiriad.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 15

Derbyniwyd traean y cyfeiriadau gan Feddygon Teulu gyda chyfran debyg yn dod gan y cleifion neu eu gofaluwr.

Sir	Meddyg a Nyrs Practis	Ward Ysbyty	A&E ¹	Hunan-cyfeirio	Gofalwr	Gwasanaethau Cymdeithasol	Aral ²
Sir Gaerfyrddin	30%	11%	<0.5%	21%	14%	1%	23%
Ceredigion	44%	12%	<0.5%	15%	15%	3%	11%
Sir Benfro	34%	28%	1%	10%	16%	3%	9%
Hywel Dda	34%	13%	<0.5%	18%	15%	2%	19%


¹ Gall y ffigurau isel hyn fod yn adlewyrchaid o effaith y timau Ymateb Aciwt (ART) a MAST yn Sir Benfro yn atal gorfod mynd i'r ysbyty drwy'r dwys ffyrnt.

² Daeth y cyfeiriadau hyn gan dimau Nyrsio Adal eraill ac ART, nyrsys arbenigol a pharafeddygon drwy'r tîm adnoddau cymunedol; roedd y gyfran fwyaf a ddaeth o ffynonellau eraill yn dod o glinigau gwrthgeulydd a warfarin.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 16

Roedd dros hanner y cyfeiriadau yn geisiadau am dynnu gwaed gyda chyfran uwch ymhlith cleifion a oedd eisoes yn wybyddus i'r gwasanaeth.



* Roedd 33 o gyfeiriadau am broffion INR yn benodol gan gleifion yr oedd y gwasanaeth eisoes yn eu hadnabod; gwnaed 31 o'r cyfeiriadau hyn gan y cleifion neu eu teulu.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 17

Yn gyffredinol mae staff nyrsio ardal yn credu fod gwybodaeth gyfeirio yn ddigonol ond mae rhywfaint o wybodaeth sylfaenol ar goll.

Cyfran y cyfeiriadau a oedd yn cynnwys gwybodaeth am:	
brys y cyfeiriad?	83%
yr hanes neu'r diagnosis meddygol?	51%
a yw'r claf yn byw ar ei ben ei hun?	34%
a fyddai angen offer neu orchuddion?	32%
a oes gofalwr gan y claf?	27%
sut mae mynd i mewn i gartref y claf?	24%
a oes gan weithwyr proffesiynol eraill ran yng ngofal y claf?	23%
a oes gan y gwasanaethau cymdeithasol ran yng ngofal y claf?	14%
a oes gan y gwasanaethau gwirfoddol ran yng ngofal y claf?	7%

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 18

Yr adnoddau sydd ar gael

C. Nid yw hi'n amwlg a oes gan y Bwrdd Iechyd y nifer cywir o staff nyrsio ardal i ddiwallu'r galw:


- Mae nifer y staff nyrsio ardal sydd ar gael ar gyfer y boblogaeth cleifion cofrestredig yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd i Gymru:
 - Mae tri staff nyrsio ardal cyfwerth amser cyflawn (WTE) fesul 1,000 o gleifion cofrestredig 65 oed a hyn yn Hywel Dda o'i gymharu â 2.8 o staff cyfwerth amser cyflawn ar draws Cymru.
- Mae proses cynllunio gweithlu'r Bwrdd Iechyd yn cymryd fod y capasiti presennol yn iawn a bod ehangu'r gweithlu'n golygu ehangu'r sail sgiliau ac nid nifer y staff; fodd bynnag, ni chafodd nifer a chyfuniad sgiliau'r staff nyrsio ardal eu hadolygu ar lefel bwrdd iechyd i weld a yw'r rhain yn bodloni'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol.
- Bu cynnydd bychan yn y gweithlu nyrsio ardal ers 2009, sy'n adlewyrchu llwyddiant un sir i sicrhau cyllid i ddefnyddio staff i gefnogi cleifion oedd ag anghenion gofal cymhleth.
- Mae'r cymysgedd graddfeydd ar draws y gweithlu nyrsio ardal wedi newid dros y pum mlynedd diwethaf, er nad yw hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â chynllun gweithlu. Mae nifer y staff nyrsio ardal Band 7 wedi gostwng tra bod nifer y nyrsys staff cymunedol Band 5 wedi cynyddu.
- Er gwaethaf codiadau bychain yn nifer y gweithwyr cymorth gofal iechyd (HCSWs) yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran y gweithwyr cymorth gofal iechyd gyda'r isaf yng Nghymru gydag amrywiadau nodedig o fewn a rhwng siroedd.
- Mae gwariant ar gyflog i staff parhaol nyrsio ardal yn dangos cynnydd bach dros y pum mlynedd diwethaf, tra bod costau cyflogau staff dros dro bron wedi dyblu i dalu am absenoldebau salwch.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 19

Yr Adnoddau sydd ar gael

Mae nifer y staff nyrsio ardal sydd ar gael i'r boblogaeth o gleifion cofrestredig dros 65 yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd yng Nghymru.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 20

Yr Adnoddau sydd ar gael

Tra bod nifer y staff nyrsio ardal Band 7 yn gostwng, mae niferoedd nyrsys staff cymunedol a HCSWs yn cynyddu..


Band cyflog	Sir Gaerfyrddin		Ceredigion		Sir Benfro		Hywel Dda	
	2009	2013	2009	2013	2009	2013	2009	2013
Band 7 – nyrs ardal	10.6	7	10.94	8	9	9	30.54	24
Band 6 – nyrs ardal	5.7	10.9	3.55	1	11	11	20.25	22.9
Band 5 – nyrs staff cymunedol	40.87	49.44	27.27	31.54	28	28	96.14	108.98
Band 3 – HCSW	9.19	9.93	1.6	3.41	7	7	17.79	20.34
Band 2 – HCSW	-	-	-	-	0	0.87	0	0.87
Cyfansymiau	66.4	77.3	43.4	44.0	55.0	55.9	164.7	177.1

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 21

Yr Adnoddau sydd ar gael

Mae cyfran (11 y cant) yr HCSWs yn un o'r isaf yng Nghymru tra bo cyfran (62 y cant) y nyrsys staff cymunedol yn gymharol uchel mewn cymhariaeth â byrddau iechyd eraill.



* Dywedodd arweinywyr tîm wrthym fod y staff hyn yn aelodau o'u timau.


Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 22



Yr Adnoddau sydd ar gael

Ceir gwahaniaethau amlwg yng nghyfran yr HCSWs ar draws timau oddi mewn i'r siroedd a rhyngddynt.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 23



Rhoi sgiliau i'r staff ddarparu'r gwasanaethau

d. Mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn hyfforddiant ffurfiol i staff nyrsio ardal ond mae cydymffurfiaeth wael â'r broses arfarnu ac adolygu perfformiad yn tansellio'i allu i adnabod bylchau mewn sgiliau. Yn y cyfamser, mae lefelau isel o gydymffurfiaeth a hyfforddiant statudol a gorfodol yn cyflwyno risigau corfforaethol a gweithredol :

- Caiff anghenion hyfforddiant eu pennu'n lleol ac maent yn dibynnu'n rhannol ar y broes arfarnu ond nid yw'r staff i gyd wedi cael arfarniad ac adolygu'u cynllun datblygu personol o fewn y 12 mis diwethaf ac mae'r data arfarnu a gediwr yn ganolog yn anghyflawn:
 - mae cydymffurfio ag arfarniadau yn amrywio o 50 y cant i 70 y cant ar draws y tair sir; ac
 - mae'r Bwrdd Iechyd wedi canfod fod yna bocedi o arfer da o safbwynt arfarniadau, y mae angen iddo ei rhannu'n ehangach.
- Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wan i rai agweddau o'r hyfforddiant ac mae'r data cydymffurfiaeth a gediwr yn ganolog yn anghyflawn:
 - nid yw'r wybodaeth a gediwr yn lleol ar yr hyfforddiant ar gyfer swyddogaethau penodol a pha mor aml y dylai ddigwydd yn gyflawn bob asmer, sy'n ei gwneud yn anodd cyfrifo cyfraddau cydymffurfiaeth cywir; a
 - Dywedodd arweinyddwr tîm wrthym ei bod yn anodd weithiau rhyddhau staff i fynychu hyfforddiant statudol neu orfodol, yn enwedig mewn timau bach iawn.
- Er bod y Bwrdd Iechyd yn annog goruchwyliaeth glinigol i staff nyrsio, nid oes gan bob tîm nyrsio ardal system yn ei lle.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 24

Rhoi sgiliau i'r staff ddarparu gwasanaethau

d. Parhad...

- Mae pwysau llwyth gwaith yn ei gwneud yn anodd i'r staff i gyd gael amser a ddiogelir taladwy ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus:
 - adroddodd traean y timau nyrsio ardal nad oeddent erioed wedi cael cynnig amser a ddiogelir taladwy oherwydd anawsterau cael eu rhyddhau i fynychu.
- Fel rheol, o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, mae'r staff nyrsio ardal yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cawsant eu hyfforddi ynddynt:
 - roedd cau gwelyau ysbytai cymunedol yn gyfle i adolygu sut y gellid rhoi'r sgiliau angenrheidiol i'r gweithwyr cymorth gofal iechyd fel y gallent symud i'r gymuned; ac
 - mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda darparwyr addysg lleol i ganfod rhaglenni hyfforddiant ac addysg addas er mwyn ehangu'r sail sgiliau ar draws y gymuned.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant nyrsys ardal a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y gyfran uwch o staff sydd â Chymhwyster Ymarferydd Arbennig (SPQ):
 - ar draws Cymru, ychydig dros chwarter (27 y cant) o staff nyrsio ardal cofrestredig sydd â SQP o'i gymharu â thraean (31 y cant) y staff yn Hywel Dda; ac
 - mae un o bob wyth (13 y cant) nyrs staff cymunedol yn Hywel Dda yn dal SPQ o'i gymharu â chwech y cant ar draws Cymru.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 25

Rhoi sgiliau i'r staff ddarparu gwasanaethau

Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael mewn nifer o ardaloedd a ddim ar gael i un sir.

Hyfforddiant statudol a gorfodol	Cyfran y staff nyrsio ardal sy'n cydymffurfio â'r hyfforddiant		
	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Sir Benfro ¹
Dadebru	100%	100%	Ddim ar gael
Symud a thrin	75%	100%	Ddim ar gael
Diogelu oedolion	90%	60%	Ddim ar gael
Atal a rheoli heintiau	75%	20%	Ddim ar gael
Diogelwch tân	50%	50%	Ddim ar gael
Diogelu plant	40%	20%	Ddim ar gael
Trais ac ymddygiad ymosodol	40%	20%	Ddim ar gael
Iechyd diogelwch a lles	40%	0%	Ddim ar gael
Rheoli gwybodaeth	10%	0%	Ddim ar gael
Cydraddoldeb, amrywiaeth, hawliau dynol	10%	0%	Ddim ar gael


¹ Nid oedd yr wybodaeth a gedwid yn lleol ar ba hyfforddiant oedd ei angen ar y staff yn gyflawn bob amser felly roedd yn anodd cyfrifo cyfraddau cydymffurfiaeth cywir.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 26

Rhoi sgiliau i'r staff ddarparu gwasanaethau

Fel rheol, mae'r staff nyrsio ardal cofrestredig yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cawsant eu hyfforddi yddynt.




Yn ddefnyddol, dylai'r ddau far (glas a coch) gyd-fynd, os yw pob un o'r staff sydd wedi cael hyfforddiant, yn defnyddio'r sgiliau hyn.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 27

Rhoi sgiliau i'r staff i ddarparu gwasanaethau

Mae HCSiWs hefyd yn defnyddio'r sgiliau y cawsant eu hyfforddi yddynt



Yn ddefnyddol, dylai'r ddau far (glas a coch) gyd-fynd, os yw pob un o'r staff sydd wedi cael hyfforddiant, yn defnyddio'r sgiliau hyn.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 28

Er bod gan staff nyrsio ardal fwy o rôl mewn cydlynu gwasanaethau i'r cleifion, mae'n aneglur a ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol oherwydd gwahaniaeth anesboniadwy yn y ffordd y maent yn treulio'u hamser a dosbarthiad anwastad adnoddau.

a. Mae amrywiad anesboniadwy yn y ffordd y caiff timau nyrsys ardal eu defnyddio:


- Mae cyfran yr amser a dreulir ar ofal claf uniongyrchol yn cymharu'n llai ffafriol na nifer o rannau eraill o Gymru.
- Ceir gwahaniaethau mawr yng nghyfran yr amser a dreulir ar ofal claf uniongyrchol rhwng y timau oddi mewn i'r siroedd a rhyngddynt.
- Drwyddi draw, mae'r amser teithio yn cyfrif am gyfran fach o weithgaredd cysylltiedig â'r claf ond mae'r amser a dreulir ar gyfartaledd fesul cyswllt claf yn amrywio yn ddeublyg neu driphlyg rhwng timau:
 - ar draws Cymru, roedd amser teithio i ymweliadau claf yn cyfrif am 18 y cant o weithgaredd cysylltiedig â'r claf, yn amrywio o 17 y cant i 22 y cant.
- Mae cyfran yr amser y mae'r staff yn ei dreulio gyda'r cleifion ac mewn gweithgaredd heb fod yn gysylltiedig â'r cleifion yn amrywio ar draws ac o fewn graddfeydd, er nad ymddengys fod rheswm amlwg dros y gwahaniaeth hwn:
 - mae cyfran yr amser ar ofal claf uniongyrchol yn mynd yn llai wrth i raddfa'r swydd godi;
 - ceir gwahaniaethau mawr yn sut y mae arweinyr tîm a delioid llwyth achosion yn treulio'u hamser; ac
 - nid yw'r un o'r timau'n cael cymorth gweinyddol a chlerigol, a all gyfrif am y cyfran uchel o amser a dreulir ar waith gweinyddol gan rai staff Band 3.
- Defnyddir cymysgedd drutach o raddfeydd ar y penwythnos.



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Defnydd effeithiol

Mae gofal claf uniongyrchol yn cyfrif am 41 y cant o amser y staff o'i gymharu â 44 y cant yng Nghymru.



Gofal claf uniongyrchol yw cyswllt wyneb yn wyneb neu ar y ffôn â'r claf, mae gofal claf anuniongyrchol yn ymwneud â nodiadau'r claf, cysylltu ag asiantaethau eraill, teithio i weld y claf; a gofal heb fod gyda'r claf yw pob gweithgaredd arall ee, rheoli tîm, addysgu a dysgu, gweinyddu a rheolaeth broffesiynol a chlinigol.

Adolygiad Nyrsio Ardal


Slaid 31



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Defnydd effeithiol

Ceir amrywiadau mawr rhwng y timau o ran cyfran yr amser a dreulir gyda chleifion ac mewn gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â'r cleifion.




Adolygiad Nyrsio Ardal

Slaid 32



Defnydd effeithiol

Roedd yr amser teithio fesul cyswllt claf yn amrywio'n ddeublyg i driphlyg rhwng y timau nyrso ardal.



Adolygiad Nyrso Ardal

Sleid 33



Defnydd effeithiol

Roedd cyfran yr amser a dreuliyd gyda chleifion ac mewn gweithgaredd heb fod yn ymwneud â'r claf yn amrywio ar draws y graddfeydd.


Graddfeydd cyflog	Cyfran yr amser a dreuliyd ar:		
	Gofal claf uniongyrchol	Gofal claf anuniongyrchol	Gofal heb fod yn ymwneud â'r claf
Bandiau 2 i 4	44%	32%	24%
Band 5	44%	38%	17%
Band 6	33%	37%	30%
Band 7	31%	37%	32%
Hywel Dda	41%	37%	21%

Adolygiad Nyrso Ardal

Sleid 34

Defnydd effeithiol

Ceir gwahaniaethau mawr yn y ffordd y mae arweinyr tîm a deiliaid llwyth achosion yn treulio'u hamser.




Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 35

Defnydd effeithiol

Defnyddir cymysgedd drutach o raddfeydd ar y penwythnos.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 36

Cydweddu adnoddau â'r llwyth achosion

b. Mae'r staff wedi'u dosbarthu'n anghyfartal ar draws y llwyth achosion ac ni all y Bwrdd lechyd fod yn sicr fod adnoddau nyrso ardal yn cyd-fynd ag anghenion y llwyth achosion:


- Roedd y llwyth gwaith, o'i fesur fel nifer cleifion fesul nyrs ardal, yn amrywio deirgwaith drosodd rhwng timau nyrso ardal ac nid yw hi'n glir a yw'r amrywiad yn adlewyrchu anghenion y claf neu ddyraniadau staffio hanesyddol.
- Gwnaeth y staff nyrso ardal dos 7,600 o ymweliadau neu gysylltiadau â chleifion yn wythnos yr archwiliad ond roedd llawer o wahaniaethau annisgwyl rhwng y timau o safbwynt nifer y cleifion a welwyd a'r amser a gymerwyd i'w trin:
 - Ar gyfartaledd, cafodd y timau 45.6 o gysylltiadau fesul staff cyfwerth amser cyflawn (WTE) ond roedd hyn yn amrywio o 28 y staff WTE i 73 y staff WTE a hyd pob cyswllt ar gyfartaledd oedd 20.3 munud y tim yn amrywio o 13.4 i 30.9 munud y tim. Wrth i nifer y cysylltiadau fesul WTE godi roedd hyd y cyswllt ar gyfartaledd yn gostwng.
 - Gall yr amrywiadau hyn fod yn adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng timau o ran dibyniaeth y claf (eg, anghenion gofal cymhleth sy'n cymryd amser), ymyriadau gofal byr, y pelter a deithiwyd (felly llai o ymweliadau) a lleoliad y gofal (ee, posibilrwydd o weld mwy o gleifion mewn clinigau).
- Gweithiodd dros hanner y staff nyrso ardal fwy na'u horiau contract:
 - Gweithiodd y staff, ac eithrio mfwyrwyr cyn ac ôl-gofrestru a staff banc, unrhyw beth rhwng ychydig funudau hyd at 25 awr yn fwy na'u horiau cytundebol yn ystod yr archwiliad:
 - Dywedodd y staff wrthym y byddai staff rhan-amser yn gweithio oriau ychwanegol i lanw absenoldebau o fewn y tim ac y gellid trefnu 'amser i fwrdd yn lle' yr wythnos ganlynol.
 - Canolrif yr oriau dros ben a weithiwyd oedd 3.2, sy'n cyfateb i 8.7 o staff WTE.

Adolygiad Nyrso Ardal

Sleid 37

Cydweddu adnoddau â'r angen

Mae'r llwyth gwaith, o'i fesur fel niferoedd cleifion fesul nyrs ardal, yn amrywio deirgwaith drosodd rhwng timau nyrso ardal.



Adolygiad Nyrso Ardal

Sleid 38

C. Dywedodd deiliaid llwyth achosion wrthym eu bod yn rheoli eu llwyth achosion yn fwrriadus ond dengys ein canfyddiadau y gallai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i wella rheoli llwyth achosion:

- Yn gyffredinol nid yw llwyth achosion byth yn cau ond maent yn ymestyn i gymryd cleifion newydd gyda'r posibilrwydd fod nifer yr ymweliadau y gall cleifion eu cael mewn un diwrnod yn ddirfryn.
- Mae rhai timau'n darparu gofal i gleifion y tu allan i ffiniau'r Bwrdd Iechyd ac mae'r timau hyn yn wynebu nifer o heriau wrth gydlynu gofal i'r cleifion hyn, fel gwybod y diweddaraf am ba wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael ynghyd â'r meini prawf cymhwyster:
 - nid yw pob claf ar y llwyth achosion wedi'u cofrestru â meddygfeydd teulu lleol, gyda dau dîm yn gofalu am gleifion a gofrestrwyd â meddygfeydd mewn byrddau iechyd cyfagos; a
 - dywedodd staff wrthym ei bod yn her cadw i fyny â'r ystod o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael mewn byrddau iechyd neu awdurdodau lleol cyfagos, a allai fod o fudd i'w cleifion.
- Mae rhai cleifion yn aros ar y llwyth achosion am amser hir ac mae rhai o'r cleifion hyn yn cael ymweliad blynyddol yn unig:
 - mae dros chwarter (27 y cant) o'r cleifion wedi bod ar y llwyth achosion am dros flwyddyn ond dengys y data a roddwyd gan y timau fod cyfran sylweddol o'r cleifion yn cael eu derbyn a'u rhyddhau o'r llwyth achosion mewn unrhyw un flwyddyn; ac
 - mae chwech y cant o'r cleifion yn cael ymweliad unwaith y flwyddyn tra bod dwy ran o bump (39 y cant) yn cael ymweliad bob wythnos neu'n amlach.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 39

C. Parhad...

- Gofalir am y rhan fwyaf o'r cleifion yn eu cartrefi eu hunain ond nid yw'r cleifion i gyd yn 'gaeth i'r tŷ':
 - Roedd dros tri chwarter (78 y cant) y cysylltiadau â'r cleifion yng nghartrefi'r cleifion eu hunain tra cafodd 12 y cant eu gwneud ar y ffôn, ychydig (pedwar y cant) o'r cysylltiadau oedd yn cael eu gwneud mewn clinigau:
 - Roedd un o bob pum tîm yn darparu clinigau a denygs yr adolygiad llwyth achosion fod llai nag un y cant o'r cleifion wedi cael gofal mewn clinig.
 - Yn nhyb yr arweinwyr tîm, nid oedd un rhan o bump o'r cleifion ar y llwyth achosion yn gaeth i'r tŷ gyda bron pob un o'r cleifion yn cael ymweliad cartref. Roedd y cyfran nad ystyrid eu bod yn gaeth i'r tŷ yn amrywio rhwng y timau, yn mynd o gyn lleied â 6 y cant i fyny i 75 y cant. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn annog y cleifion, os oedd modd, i fynd i gael triniaeth gyda'r meddyg teulu; ond dywedodd yr arweinwyr tîm wrthym fod rhai meddygfeydd yn anhygyrch i'r cleifion ac felly bod angen ymweliad cartref.
 - Dywedodd y staff wrthym fod cleifion allan weithiau pan oeddent yn galw. Roedd y siwrneiau 'gwastraff' hyn yn cyfrif am lai nag un y cant o amser staff yn ystod yr archwiliad ond mae'n codi cwestiynau ynghylch a fyddai lleoliadau gofal eraill yn fwy priodol.
- Mae dros hanner y cleifion ar y llwyth achosion yn derbyn un ymyriad gofal yn unig, fel arfer ar gyfer tynnu gwaed, er bod rhai gwahaniaethau rhwng y siroedd.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 40

Derbyniodd dros hanner (57 y cant) y cleifion ar y llwyth achosion un ymyriad gofal, fel arfer ar gyfer tynnu gwaed.

Ymyriadau gofal nodweddiadol i gleifion oedd yn derbyn un 'pecyn gofal' ¹	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Sir Benfro	Hywel Dda
Tynnu gwaed	43%	25%	43%	41%
Rheoli clwyfau	15%	12%	13%	14%
Rhoi meddyginaethau (heblaw IV a thrwy'r ceg)	13%	27%	10%	14%
Gofal am broblemau rheoli'r bledren	10%	14%	15%	13%
Atal a thrin wiserau coes	4%	8%	4%	5%
Atal a thrin briwiau pwyso	5%	3%	3%	4%
Arall (ee, salwch aciwt neu gronig, gofal lliniarol, atal cwmpo)	10%	10%	11%	9%

¹ Gofynnwyd i'r arweinywr tîm nodi pa becyn gofal o restr o 17 oedd yn disgrifio orau y gofal yr oedd y cleifion yn ei gael. Tybiwyd fod pob pecyn gofal hefyd yn cynnwys asesu a thrin, lliniaru a rheoli symptomau, hybu iechyd, addysg claf/gofalwr a monitro. Cafodd chwarter (24 y cant) o'r cleifion ddau becyn gofal gydag 19 y cant yn cael tri neu fwy o becynnau gofal.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 41

d. Mae gan staff nyrsio ardal fwy o ran mewn cydlynu'r gwasanaethau gofal iechyd lluosog y mae cleifion yn eu cael yn y gymuned o'i gymharu â rhai rhannau o Gymru:

- Mae nifer o gleifion yn derbyn gwasanaethau gofal iechyd lluosog yn y gymuned gyda thimau nyrsys ardal yn cydlynu neu'n rheoli achos mwyafrif y gofal hwn:
 - Roedd bron i dair rhan o bump (58 y cant) o'r cleifion ar lwyth achosion y nyrsys ardal yn derbyn gofal/cyngor gan wasanaethau gofal iechyd cymunedol eraill, nyrsys arbenigol neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Y gwasanaethau a nodwyd yn fwyaf aml oedd: y timau adnoddau cymunedol, y tîm cyflyrau cronig, podiatreg a gwasanaethau ymataliaeth, a seiciatryddion a therapi galwedigaethol.
 - Derbyniodd ychydig dros hanner (53 y cant) o'r cleifion ofal a drefnwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol.
 - Mae timau nyrsys ardal yn cydlynu neu'n rheoli achos gofal tri chwarter (74 y cant) y cleifion sy'n derbyn gwasanaethau gofal iechyd cymunedol lluosog. Pan nad yw'r timau'n cydlynu'r gofal hwn, nodir mai meddygon teulu a nyrsys arbenigol yw'r cydlynwyr gofal. Ar draws Cymru mae cyfran y cleifion y mae'r timau nyrsio ardal yn cydlynu neu'n rheoli achos eu gofal yn amrywio o 59 y cant i 86 y cant.
- Nid oes systemau ffurfiol yn eu lle i rannu gwybodaeth am gleifion rhwng y gwahanol dimau a'r darparwyr gwasanaeth ac mae'r staff yn dibynnu ar ddolenni cyfathrebu da ond anffurfiol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 42

Nid yw'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn gallu asesu, monitro ac adrodd ar berfformiad, ansawdd a diogelwch ei wasanaeth nyrsio ardal, yn systematig.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 43

- a. Mae'r systemau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal yn annigonol:**
- Mae'r systemau ar gyfer dal ac adrodd ar weithgaredd yn anghyson rhwng y siroedd ac ychydig o eglurder a geir am sut y defnyddir yr wybodaeth a ddaliwyd fel sail i gynllunio neu welliannau.
 - Ni chytunwyd eto ar fesurau neu ddangosyddion perfformiad o safbwynt ansawdd a diogelwch y gwasanaeth nyrsio ardal er bod gwaith i gytuno ar fesurau perfformiad wedi dechrau; yn y dyfodol, bydd archwiliad 'Hanfodion Gofal Cymru Gyfan, a fydd yn cyraedd y gwasanaethau nyrsio ardal gyda hyn, yn rhoi rhywfaint o wybodaeth.
 - Nid yw dulliau i ddal profiad y claf neu'r defnyddwyr wedi'u datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd a dibynnir ar fonitro cwynion a digwyddiadau:
 - mae rheolwyr sirol wrthi'n ceisio dysgu sut mae asiantaethau erall yn cael adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth; ac
 - yn y dyfodol, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu holi barn cleifion sydd ar y llwyth achosion nyrsio ardal fel rhan o'r arolwg cenedlaethol i brofiad cleifion cenedlaethol.
 - Nid oes tystiolaeth fod y Bwrdd neu ei bwyllgorau wedi trafod perfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 44

Adnabod a rhannu arfer da

- b. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan weithredol mewn datblygu gwasanaethau nyrsio ardal ar draws Cymru ac mae'n gweithio i wella'r ffordd y mae gwybodaeth, yn cynnwys arfer da, yn cael ei rhannu oddi mewn i'r siroedd a rhyngddynt:**
- mae uwch staff nyrsio'n cyfrannu'n weithredol i'r fforymau Cymru gyfan ar y gwasanaeth nyrsio ardal ond nid oes mecanweithiau eglur ar gyfer lledaenu'r wybodaeth hon i dimau lleol.
 - mae gwaith ar y gweill i ddatblygu mecanweithiau ar gyfer rhannu materion gweithredol a phroffesiynol, yn cynnwys arfer da, oddi mewn i'r siroedd a rhyngddynt.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 45

Materion sydd angen sylw

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r canlynol:

- cytuno ar rôl y gwasanaeth nyrsio ardal o fewn y ddarpariaeth ehangach o wasanaethau nyrsio cymunedol;
- cytuno ar rôl y gwasanaeth nyrsio ardal gyda'r staff a rhanddeiliaid allweddol eraill;
- sicrhau nad yw'r llwyth achosion yn cael ei orymestyn drwy adolygu a ellir rhyddhau cleifion yn ddiogel o'r llwyth achosion;
- sicrhau fod gweithdrefnau uwchgyfeirio cilr yn eu lle pan fo'r gwasanaeth o dan bwysau;
- diweddarau a chyfleu'r meini prawf cyfeirio;
- datblygu rhestr wirio o'r wybodaeth sydd ei hangen gan y rhai sy'n cyfeirio;
- defnyddio canfyddiadau'r archwiliad i sicrhau fod staff yn cael eu defnyddio mor effeithiol ag y bo modd;
- defnyddio offeryn dibyniaeth Cymru gyfan pan fydd ar gael er mwyn adolygu'n wrthrychol a yw nifer a sgiliau'r gweithlu yn cyd-fynd ag anghenion y llwyth achosion;
- symud ymlaen yn gyflym gyda'r gwaith o gael mesurau perfformiad ac ansawdd a diogelwch a datblygu dull ar gyfer adrodd y rhain i'r Bwrdd; a
- mynd i'r afael â chydymffurfiaeth wael â'r broses arfarnu ac adolygu'r cynllun hyfforddi ynghyd â hyfforddiant statudol a gorfodol ac ar yr un pryd gwella systemau corfforaethol er mwyn casglu'r data hyn yn ganolog.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 46

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk